

CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD
COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD NOS FERCHER
7 Chwefror 2018, NEUADD PENMYNYDD 7.30yh

YN BRESENNOL : Cyng A Mummery, N Jones, E Williams, R Davies, M Jones (Cyngor Sir), G Owen (Clerc)		
YMDDIHEURIADAU: Cyng D I Roberts, R Williams (Cyngor Sir)		
1	Cadeirydd y cyfarfod gan Cyng N Jones.	
2	DATGAN DIDDORDEB – Cyng R Davies (6.1 Horizon), Cyng M Jones (5.1 cynllunio)	
3	DERBYN COFNODION Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod 03.01.18. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng A Mummery yn cynnig a Cyng N Jones yn eilio	
4	MATERION YN CODI O'R COFNODION	
4.1	Tyllau yn y ffordd tu ol i Bryn ffynnon - Bydd darn o'r lôn (y darn cyntaf) yn cael ei wneud yn y blwyddyn ariannol newydd	
4.2	Canolfan Penmynydd - Darllenwyd ebost gan Cadeirydd y Cyngor Cymuned yn dweud bod Brenda yn ymddiheuro nad yw wedi llwyddo i beintio oherwydd mae hi wedi colli ei thad. Mae'r gwaith ar atgyweirio'r wal allanol yn mynd ymlaen. Mae'n debyg fod y gôst o dan £10000. Bydd angen diolch i'r Cyngor Sir am hyn. Hefyd, bydd angen paratoi siec am £200 (rhodd cychwynnol Pwyllgor Canolfan Penmynydd).	
4.3	Tai Elusendai Penmynydd - Darllenwyd ebost gan Cadeirydd y Cyngor Cymuned yn dweud ei fod wedi mynychu cyfarfod yr ymddiriedolaeth: Roedd yr aelodau'n cytuno fod yr Elusendai mewn stad anfodddhaol Cytunwyd nad oedd modd i'r Elusen wneud gwaith sylweddol ar ben eu hunain Cytunwyd i ysgrifennu at Elusen gyffelyb ym Mangor yn cynnig trosglwyddo Elusen Penmynydd i'w gofal hwy Pe byddent yn derbyn, ac am fod ganddynt eiddo arall, fe allen nhw fwrw ymlaen i atgyweirio neu i werthu'r eiddo i'w ddatblygu. Ni all yr Elusen hon wneud hynny gan mai dim ond un eiddo sydd ganddynt Bydd ysgrifennydd yr Elusen yn danfon neges i Elusen Henry Jones (?) i weld a oes ganddynt ddiddordeb. Does dim rheswm na fydd, gan ei fod yn fanteisiol iawn iddyn nhw ac yn datrys problem hirdymor i ni ym Mhenmynydd Penderfynodd y cynrychiolwyr i ganiatau gwario ar sicrhau fod y lle yn ddestlus ac yn ddiogel fel na fydd yn achos problemau i drigolion Penmynydd. Mae swm anrhydeddus gan yr Elusen i wneud hyn. Cefais gynnig bod ar bwyllgor yr Elusen i gynrychioli'r Cyngor. Os yw hynny'n dderbyniol gan yr aelodau, fe wnaif	
4.4	Bws yn parcio wrth ymyl y Glyn - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir	
4.5	Torri coed o dan gwifrau trydan - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan Scottish Power	
	Llofnod	Cadeirydd 07.03.18

4.6	Adolygu cyflog y Clerc - symud ymlaen i'r agenda nesaf
4.7	Precept 2018/19 - Cytunwyd i codi y precept i £6250.00
4.8	Archwiliwr mewnol - Mae'r Clerc wedi derbyn dau pris - Cyngor Gwynedd £125 - £150 a Mr Alun Foulkes ar yr un amodau ag Mr John Roberts (yr archwilydd blaenorol). Cytunwyd i cynnig contract i Mr Foulkes am un flwyddyn.
5	Gohebiaeth Cyngor Ynys Mon
	Cynllunio
5.1	41LPA1041/FR/TR/CC cais llawn ar gyfer newid defnydd tir amaethyddol i'w ddefnyddio fel man stopio dros dro (10 llecyn) ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, addasiadau i'r fynedfa gerbydau bresennol, ffurfio mynedfa newydd i gerddwyr a phafin ynghyd â datblygiadau cysylltiedig ar dir i'r dwyrain o Star. Sylwadau y Cyngor: Mae'r tir yn anaddas, gwlyb ac yn berygus. Hefyd, mae'r lleoliad yn anaddas i trigolion a gyrwyr. Bydd y lleoliad a'r ffens 3 metr yn weladwy i trigolion Star a twristiaid a bydd y cost o gwneud y lleoliad yn uchel. Nid oes llwybr i pentref Llanfairpwll a dim golau stryd. Mae'r Cyngor hefyd yn bryderus am sŵn rhwng y ddwy lôn, sŵn o'r rheilffordd a bod y Cyngor Sir heb gwneud asesiadau iawn o llefydd eraill. Nid yw y mynediad yn addas. Mae'r aelodau'n apelio at y Cyngowyr i edrych ar y cais fel y byddent yn ystyried cais yn eu ardal hwy. Hefyd, bydd y Clerc yn anfon ymlaen ddeiseb gyda 1591 o enwau yn gwrthwynebu'r cais
6	Gohebiaeth Ychwanegol
6.1	Horizon - Ymgynghoriad ar dir ychwanegol - dim sylwadau
6.2	Cyngor Gwynedd - archwilio mewnol (pris) - gweler 4.8
6.3	Alun Foulkes - archwilio mewnol (pris) - gweler 4.8
7	MATERION ARIANNOL
	Cytunwyd i dalu:
7.1	Archwiliwr mewnol £50.00
7.2	Anglesey Computer Solutions £270.00
7.3	Cais ariannol -Seindorf leuenctid Beaumaris - cytunwyd i drafod yn y cyfarfod nesaf.
8	MATERION ERAILL
	Dim
9	Eitemau ar gyfer yr agenda nesaf
	Dim
	Llofnod Cadeirydd 07.03.18.